# Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015

**2015 dccc 1**

## RHAN 7

DARPARIAETH ATODOL YNGHYLCH SWYDDOGAETHAU CCAUC

*Adroddiadau sydd i'w llunio gan CCAUC*

### 50 Adroddiadau blynyddol

(1) Cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob cyfnod adrodd, rhaid i CCAUC gyflwyno adroddiad i Weinidogion Cymru ar sut, yn ystod y cyfnod, y mae CCAUC wedi arfer ei swyddogaethau yn rhinwedd y Ddeddf hon.

(2) Cyn gynted â phosibl ar ôl cael adroddiad o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru osod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(3) Rhaid i'r adroddiad gydymffurfio ag unrhyw ofynion y caiff Gweinidogion Cymru eu pennu drwy gyfarwyddyd i CCAUC.

(4) Caiff y gofynion hynny gynnwys gofynion o ran ffurf a chynnwys yr adroddiad.

(5) At ddibenion yr adran hon y cyfnod adrodd cyntaf yw'r cyfnod—

- (a) sy'n dechrau ar y diwrnod y daw'r adran hon i rym, a
- (b) sy'n dod i ben ar ba ddiwrnod bynnag yw'r cynharach o flwyddyn ar ôl y diwrnod hwnnw, a diwrnod a bennir gan CCAUC mewn hysbysiad a roddir i Weinidogion Cymru.

(6) Y cyfnodau adrodd dilynol yw pob cyfnod olynol o 12 mis.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru drwy gyfarwyddyd bennu gofynion y mae hysbysiad a roddir fel y'i disgrifir yn is-adran (5) i gydymffurfio â hwy (gan gynnwys o ran ffurf a chynnwys, a'r adeg y mae i'w roi); ac nid yw'r hysbysiad i'w drin fel pe bai wedi ei roi at ddibenion is-adran (5) oni bai ei fod yn cydymffurfio â'r gofynion hynny.

## 51 Adroddiadau arbennig

(1) Rhaid i CCAUC, os y'i cyfarwyddir i wneud hynny gan Weinidogion Cymru, adrodd i Weinidogion Cymru ar unrhyw un neu ragor o'r canlynol—

(a) cydymffurfedd ag adran 10(1) gan sefydliadau o fewn adran 10(2) yn gyffredinol neu gan sefydliad penodol;

(b) cydymffurfedd â gofynion cyffredinol cynlluniau a gymeradwywyd yn gyffredinol, neu â gofynion cyffredinol cynllun penodol a gymeradwywyd;

(c) effeithiolrwydd cynlluniau a gymeradwywyd yn gyffredinol, neu effeithiolrwydd cynllun penodol a gymeradwywyd, wrth hybu cyfle cyfartal a hybu addysg uwch;

(d) unrhyw faterion eraill a bennir yn y cyfarwyddyd sy'n ymwneud â hybu cyfle cyfartal neu hybu addysg uwch;

(e) ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau rheoleiddiedig yn gyffredinol, neu ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliad rheoleiddiedig penodol;

(f) cydymffurfedd gan sefydliadau rheoleiddiedig yn gyffredinol, neu gan sefydliad rheoleiddiedig penodol, â gofynion y Cod.

(2) Caiff cyfarwyddyd o dan is-adran (1) bennu—

(a) ffurf a chynnwys adroddiad a wneir at ddibenion yr adran hon;

(b) pryd y mae'r adroddiad i'w wneud.